

PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

Dydd Mercher, 23 Awst 2023

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

G. Davies a/ac J.M. Charles

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr

K. Morris, Cyfreithiwr Cynorthwyl

E. Anthony, Uwch Swyddog derbyn i ysgolion

S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd

K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democraidd

Rhith-Gyfarfod

- 10.10 - 10.15 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

4. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD C.S.YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r

wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i sylwadau ysgrifenedig yr apelydd ynghylch penderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod rhoi cludiant ysgol am ddim i C.S. i ysgol nad oedd yn ysgol agosaf nac ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer cyfeiriad y cartref, ac felly nid oedd yn bodloni'r meini prawf a amlinellir ym mholisi'r Cyngor ar gyfer darparu cymorth. Rhoddodd y Panel ystyriaeth i amgylchiadau unigol yr achos, ynghyd â sylwadau'r swyddogion adrannol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr apêl a gyflwynwyd gan C.S am gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei chadarnhau.

CADEIRYDD

DYDDIAD